

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Newidiadau i'r broses apelio: llinellau manwl i'w cymryd ar gyfer grwpiau sy'n cynrychioli cwsmeriaid

Trosolwg o'r newidiadau

C: Beth sy'n newid?

Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r broses anghydfodau ac apelio er mwyn lleihau galw diangen ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) a sicrhau y caiff mwy o anghydfodau ynghylch penderfyniadau eu datrys gan Swyddogion Penderfyniadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae tri newid allweddol:

- **Ailystyriaeth orfodol** o benderfyniadau cyn apêl - ar ôl derbyn penderfyniad y mae rhywun yn anghytuno ag ef, bydd yn rhaid i'r unigolyn ofyn i DWP gynnal 'ailystyriaeth orfodol' cyn gallu cyflwyno apêl.
- **Cyflwyno uniongyrchol** o apeliadau i HMCTS - bydd pobl sydd am apelio yn dilyn ailystyriaeth orfodol nawr yn cyflwyno eu hapêl yn uniongyrchol i HMCTS.
- **Terfynau amser** i DWP ddychwelyd ymatebion i apeliadau at HMCTS - mae DWP wedi cytuno i gais y Pwyllgor Gweithdrefn Tribiwnlysoedd i gyflwyno terfynau amser ar gyfer dychwelyd ymatebion i apeliadau at HMCTS. Mae DWP wedi ymrwmo i ddarparu ymateb i apêl o fewn 28 diwrnod calendr mewn achosion yn ymwneud â budd-daliadau, ac o fewn 42 diwrnod calendr mewn achosion cynhaliaeth plant.

C: Pwy fydd y newidiadau yn eu heffeithio?

Bydd y mesurau yn effeithio ar bawb sy'n hawlio budd-dal a weinyddir gan DWP a'r rheini sy'n ymgymryd ag asesiad neu gyfrifiad cynhaliaeth plant.

C: Pa apeliadau a gaiff eu cwmpasu gan y newidiadau hyn?

Mae'r newidiadau yn gymwys i apeliadau yn erbyn unrhyw gosb yn ymwneud â budd-daliadau neu unrhyw benderfyniad am gymhwyster i gael budd-daliadau. Cyflwynwyd y newidiadau'n raddol, ac fe'u cyflwynwyd yn gyntaf ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol ym mis Ebrill 2013.

C: A fydd y newidiadau'n gymwys i achosion cynhaliaeth plant?

Byddant. Cyflwynwyd y newidiadau ar gyfer achosion cynhaliaeth plant ar 28 Hydref 2013.

C: Pryd cyflwynwyd y newidiadau?

Cyflwynwyd ailystyriaeth orfodol, cyflwyno'n uniongyrchol a therfynau amser ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol o 8 Ebrill 2013 ac ar gyfer y Credyd Cynhwysol o 29 Ebrill 2013.

Ar gyfer pob budd-dal arall a weinyddir gan DWP ac achosion cynhaliaeth plant, cyflwynwyd y newidiadau ar 28 Hydref 2013.

Bydd DWP yn dechrau cyflwyno adroddiadau yn erbyn y terfynau amser o fis Hydref 2014.

C: A fydd y newidiadau'n effeithio ar bobl sy'n byw dramor, ac os felly, pryd?

Byddant, mae'r newidiadau hefyd yn berthnasol i bobl sy'n byw dramor. Fel yn y DU, fe'u cyflwynwyd ar gyfer y sawl sy'n byw dramor ac yn hawlio'r Taliad Annibyniaeth Personol o 8 Ebrill 2013 ac ar gyfer y Credyd Cynhwysol o 29 Ebrill 2013. Ar gyfer pob budd-dal arall a weinyddir gan DWP ac achosion cynhaliaeth plant, cyflwynwyd ailystyriaeth orfodol a chyflwyno'n uniongyrchol o 28 Hydref 2013, a bydd DWP yn dechrau cyflwyno adroddiadau yn erbyn y terfynau amser o fis Hydref 2014.

C: A fydd y newidiadau'n gymwys i apelyddion a ddechreuodd eu hapêl cyn cyflwyno'r newidiadau, ond y mae eu hapeliadau yn mynd rhagddynt o hyd?

Os yw apelydd wedi cyflwyno eu hapêl cyn y dyddiad y cyflwynwyd y newidiadau i anghydfodau ac apeliadau ar gyfer eu budd-dal (8 Ebrill 2013 ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol, 29 Ebrill 2013 ar gyfer y Credyd Cynhwysol, a 28 Hydref 2013 ar gyfer yr holl fudd-daliadau eraill a weinyddir gan DWP), yna ni fydd y newidiadau'n gymwys iddynt.

C: A yw DWP a HMCTS yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r newidiadau?

Gweithiodd DWP a HMCTS yn agos gyda'i gilydd i gyflawni'r newidiadau ac maent yn parhau i wneud hynny. Yn arbennig, mae DWP a HMCTS wedi sefydlu Tasglu Apeliadau. Ei nod yw gwella ansawdd y penderfyniadau cychwynnol, er mwyn mynd i'r afael â'r nifer fawr o apeliadau ac er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag apeliadau yn deg ac yn effeithlon. Mae hyn wedi cynnwys:

- symleiddio prosesau o fewn DWP a HMCTS, yn cynnwys adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r broses apelio;
- gwella'r cyswllt â hawlwr i sicrhau bod unrhyw dystiolaeth newydd yn cael ei hystyried wrth gyflawni ailystyriaethau gorfodol.

Sefydlwyd Grŵp Rheoli Perfformiad ar y Cyd hefyd, sy'n cwrdd yn fisol ac yn atebol i'r Tasglu Apeliadau.

C: A ymgynghorwyd â'r cyhoedd o gwbl ynghylch y newidiadau?

Do. Rhwng 9 Chwefror 2012 a 4 Mai 2012, cynhaliodd DWP ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos yn ceisio barn ar y Rheoliadau ar gyfer ailystyriaethau gorfodol a gafodd eu drafftio ar gyfer trafodaethau pwyllgor yr Arglwyddi ar y Bil Diwygio Lles. Cafodd y Bil gymeradwyaeth Seneddol a hwn bellach yw Deddf Diwygio Lles 2012.

Cafodd DWP 154 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan nifer o sefydliadau, ynghyd â sylwadau gan staff DWP, hawlwyr a'r cyhoedd.

C: Ydych chi'n ceisio ei gwneud yn fwy anodd i bobl apelio?

Ddim o gwbl. Mae Swyddogion Penderfyniadau eisoes yn ailystyried penderfyniad pan fydd hawlydd yn gwneud cais am ailystyriaeth neu'n apelio. Nid proses newydd mohoni. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd ei gwneud yn ofynnol i bobl wneud cais am ailystyriaeth cyn y caniateir iddynt apelio yn gwella'r broses o ddatrys anghydfodau.

Bydd pobl yn dal i allu apelio yn erbyn yr un penderfyniadau, fel ar hyn o bryd, unwaith y byddant wedi gofyn i DWP eu hailystyried ac wedi cael y canlyniad.

C: Ai dim ond ceisio arbed arian rydych yn ei wneud?

Na. Wrth gwrs, mewn cyfnod o doriadau gwario, mae'n bwysig i DWP ystyried costau ymhlith ffactorau eraill, ac mae'n bendant yn fwy effeithlon o ran costau, yn ogystal ag effeithlon o ran amser, os caiff anghydfodau eu datrys cyn gynted â phosibl.

Fodd bynnag, y prif ffactor sy'n sbarduno'r newidiadau yw awydd i wella'r broses anghydfodau ac apelio, i wahanu'n glir rolau DWP a HMCTS, ac i wella profiad y cwsmer drwy roi amserlen i bobl y gallant ddisgwyl i DWP brosesu'r ymateb i apêl yn unol â hi.

C: Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn hawlio dau wahanol fath o fudd-dal? A fydd yn rhaid iddo ddefnyddio dwy broses wahanol er mwyn herio penderfyniadau DWP?

Bydd, efallai y bydd cyfnod lle bydd pobl sy'n cyflwyno apeliadau ar gyfer budd-daliadau gwahanol neu gynhaliaeth plant yn ystod y cyfnod sy'n cwmpasu'r newidiadau, yn dilyn dwy broses. Bydd yr hysbysiadau o benderfyniadau y bydd DWP yn eu hanfon atynt yn egluro p'un a yw'n ofynnol iddynt wneud cais am ailystyriaeth orfodol cyn apelio yn erbyn y penderfyniadau y maent yn ymwneud â hwy.

C: Sut y bydd pobl yn gwybod pa brosesau sy'n gymwys iddynt hwy?

Mae Credyd Cynhwysol a Thaliad Annibyniaeth Personol wedi dilyn y prosesau newydd ers i'r budd-daliadau hyn gael eu cyflwyno yn Ebrill 2013. Felly os yw'r penderfyniad y ceir anghydfod yn ei gylch yn ymwneud â chais am Daliad Annibyniaeth Personol neu Gredyd Cynhwysol, bydd y newidiadau yn bendant yn gymwys.

Ar gyfer budd-daliadau eraill, os yw'r hysbysiad o benderfyniad yn ddyddiedig cyn 28 Hydref, bydd yr hen broses yn gymwys (felly bydd opsiwn o symud yn syth i apêl).

Os yw'r hysbysiad o benderfyniad yn ddyddiedig ar neu ar ôl 28 Hydref 2013, bydd y broses newydd yn gymwys a bydd yn rhaid i'r unigolyn wneud cais am ailystyriaeth orfodol cyn iddynt allu apelio.

Yn y ddau achos, bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn esbonio beth y dylai'r unigolyn ei wneud os nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad, a beth yw eu hawliau apelio.

Bydd DWP hefyd yn sicrhau y bydd grwpiau sy'n cynrychioli cwsmeriaid yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer y newidiadau.

C: Gyda newidiadau yn cael eu cyflwyno ar adegau gwahanol, sut y byddwch yn gweithredu aml-brosesau yn llwyddiannus?

Rydym yn gweithio'n agos gyda HMCTS, ac wedi datblygu cynlluniau manwl er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus ac ar amser.

C: Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Gov.uk. Chwiliwch o dan "Rhaglen Diwygio Apeliadau" neu teipiwch dermau penodol fel "ailystyriaeth orfodol", "cyflwyno'n uniongyrchol" neu "terfynau amser".

Mae taflenni ar gael hefyd gan DWP a HMCTS, a fydd yn esbonio'r broses anghydfodau ac apelio yn fanylach.

Gwella'r broses anghydfodau ac apelio

C: Faint o apeliadau a gaiff eu gwneud yn erbyn penderfyniadau DWP?

Dengys ystadegau blynyddol ar gyfer 2012/13 fod HMCTS wedi derbyn 507,131 o apeliadau yn erbyn penderfyniadau DWP dros y cyfnod hwn. Dyma'r ystadegau blynyddol mwyaf diweddar sydd ar gael ar hyn o bryd.

C: Pam bod cyfradd gwrthdroi penderfyniadau DWP mewn apêl mor uchel â beth ydych chi'n ei wneud am hyn?

Mae DWP yn amcangyfrif bod tua 38% o apeliadau yn arwain at wrthdroi penderfyniad DWP. Nid yw'r ffaith bod penderfyniad yn cael ei wrthdroi yn golygu bod penderfyniad DWP yn anghywir, ac mae'n werth nodi nad yw hyn yn golygu bod 38% o'r holl benderfyniadau a wneir gan DWP yn cael eu gwrthdroi, ond dim ond 38% o'r rheini sy'n mynd i apêl. Yn wir, nid apelir yn erbyn y rhan fwyaf o benderfyniadau DWP. Fodd bynnag, mae'r gyfradd wrthdroi yn dal yn uwch nag y byddai'r Adran yn ei ddymuno, gan fod DWP yn awyddus i wneud y penderfyniad "cywir y tro cyntaf".

Awgryma'r arwyddion cynnar fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau'n cael eu gwrthdroi oherwydd bod y farnwriaeth yn llunio casgliad gwahanol yn seiliedig ar yr un ffeithiau neu yn dilyn tystiolaeth lafar yn cael ei darparu yn y gwrandawriad gan yr apelydd neu ei gynrychiolydd.

Mae gweithgarwch a buddsoddiad helaeth wedi'u gwneud eisoes yn dilyn adolygiadau'r Athro Harrington o'r Asesiad Gallu i Weithio, er mwyn gwella safonau penderfyniadau DWP. Mae DWP eisoes wedi newid ei model gweithredu i gyflwyno mwy o gyswllt â chwsmeriaid, fel bod modd i Swyddogion Penderfyniadau esbonio penderfyniadau, gwrandao ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol a gwneud y penderfyniad cywir cyn gynted â phosibl.

Mae DWP wedi cymryd camau hefyd i wella adborth o driwlynlysoedd, er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau dros wrthdroi penderfyniadau. Mae'r Adran wedi bod yn rhedeg cynllun peilot i brofi a allai anfon mwy o Swyddogion Cyflwyno i wrandawriadau triwlynlysoedd fod yn ffordd effeithiol o ddarparu adborth y gall DWP ddysgu ohono.

C: A oes gennych gynllun i fynd i'r afael â nifer fawr o apeliadau?

Mae DWP a HMCTS wedi cytuno ar gynlluniau cadarn i sicrhau bod capasiti ychwanegol ar gael i ateb y galw cynyddol am wrandawriadau apêl. Er enghraifft, mae DWP wedi dyrannu staff ychwanegol i ymdrin ag apeliadau, ac mae HMCTS wedi:

- recriwtio mwy o farnwyr ac aelodau o'r panel sy'n meddu ar gymwysterau meddygol;
- sicrhau lleoliadau gwrandawriadau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar feysydd sydd â'r amseroedd aros hiraf;
- cynnal sesiynau ar ddydd Sadwrn yn rhai o'r lleoliadau prysuraf.

Disgwylir hefyd y bydd y newidiadau i'r broses apelio, drwy ddatrys anghydfodau'n fewnol o fewn DWP ar gam cynharach o'r trafodion, yn lleihau pwysau diangen ar HMCTS.

C: Sut y byddwch yn gwella safonau penderfyniadau?

Mae DWP yn gweithio gyda HMCTS ar hyn o bryd i wella prosesau penderfyniadau ac apeliadau mewnol. Mae'r Tasglu Apeliadau, a sefydlwyd ar y cyd â HMCTS, wedi

canolbwyntio ar wella'r broses benderfynu ac effeithlonrwydd drwy gydol y broses apelio. Yn 2011, cyflwynodd DWP raglen dysgu ar gyfer Swyddogion Penderfyniadau gyda'r nod o wella ansawdd y broses gwneud penderfyniadau a sicrhau mwy o gysondeb.

Mae'r Adran hefyd yn gweithio gyda HMCTS i wella adborth o wrandawiadau tribiwnlysoedd er mwyn gwella'r broses benderfynu ymhellach.

O 9 Gorffennaf 2012, ychwanegwyd gwybodaeth newydd at yr hysbysiad o benderfyniad a gyhoeddir gan HMCTS, a fydd yn darparu'r prif reswm dros wrthdroi penderfyniad, wedi'i ddewis gan farnwr o gwmpen, er mwyn galluogi'r Adran i asesu meysydd y gallai fod angen eu gwella ymhellach. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar y broses o gasglu tystiolaeth a helpu i wella safonau penderfyniadau.

Mae nifer o newidiadau hefyd wedi'u gwneud o ganlyniad i'r adolygiadau o'r Aseiad Gallu i Weithio a gynhaliwyd gan yr Athro Malcolm Harrington. Mae'r argymhellion sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ac apeliadau y mae DWP wedi'u derbyn a'u gweithredu hyd yma yn cynnwys darparu hyfforddiant ychwanegol i holl Swyddogion Penderfyniadau DWP ar gasglu a defnyddio tystiolaeth, a chynnal fforymau rheolaidd lle y gall Swyddogion Penderfyniadau godi materion neu gwestiynau a rhannu arferion da.

C: Pa gymorth a rowch chi i Swyddogion Penderfyniadau a Swyddogion Apeliadau?

Crëwyd pecyn Dysgu a Datblygu i gefnogi Swyddogion Penderfyniadau a Swyddogion Apeliadau drwy'r newidiadau. Yn dilyn argymhellion yr Athro Harrington, mae DWP hefyd yn darparu hyfforddiant ychwanegol i holl Swyddogion Penderfyniadau DWP ar gasglu a defnyddio tystiolaeth a chynnal fforymau rheolaidd lle y gall Swyddogion Penderfyniadau godi materion neu gwestiynau a rhannu arferion da.

Cymorth i Hawlwyr

C: A fydd cymorth ychwanegol i bobl sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol?

Bydd, fel ym mhob un o feysydd DWP, bydd llythyrau a ffurflenni ar gael yn Braille ac mewn fformatau amgen (er enghraifft, mewn print bras neu ar ffurf sain neu CD). Gellir trefnu bod dolenni sain a chyfleusterau cyfathrebu dros ffôn testun ar gael i bobl ag anawsterau clywed. Os caiff DWP ei hysbysu nad iaith gyntaf rhywun yw Cymraeg neu Saesneg, gall fod yn bosibl trefnu i lythyrau a ffurflenni gael eu cyfieithu, ac i gyfieithydd fod yn bresennol mewn ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

Ar gais, gall HMCTS hefyd ddarparu ffurflenni yn Gymraeg neu mewn print bras a threfnu gwasanaethau cyfieithu.

C: A fydd cymorth ychwanegol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl?

Rhoddir hyfforddiant i staff DWP ar helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, a gallant ddarparu addasiadau rhesymol.

C: A fydd HMCTS a DWP yn gallu nodi pobl sy'n agored i niwed a rhoi cymorth ychwanegol iddynt.

Byddant, rhoddir hyfforddiant i staff DWP ar sut i nodi pobl agored i niwed a sut y gallant ddiwallu eu hanghenion orau. Rhoddir yr holl hyfforddiant a chanllawiau arbenigol angenrheidiol i Swyddogion Penderfyniadau gyflawni eu rolau a byddant yn gallu defnyddio cymorth arbenigol lle bo angen. Mae HMCTS hefyd wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer cefnogi cwsmeriaid agored i niwed drwy'r broses apelio.

Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bosibl dweud pan fo rhywun yn agored i niwed, felly os oes unrhyw agweddau ar amgylchiadau unigolyn yr hoffai i DWP neu HMCTS fod yn ymwybodol ohonynt, neu fesurau rhesymol y gallai staff eu cymryd i'w gefnogi, dylent hysbysu'r ddwy adran ohonynt ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Y broses Ailystyriaeth Orfodol

C: Beth yw "ailystyriaeth orfodol" a sut y bydd yn newid pethau?

Ystyr ailystyriaeth orfodol yw achos pan fydd rhywun sy'n herio penderfyniad sydd wedi cael ei dderbyn yn gorfod gofyn i DWP roi 'ailystyriaeth orfodol' iddynt cyn y cânt gyflwyno apêl.

Cyn y newidiadau, os byddai rhywun yn herio penderfyniad DWP, gallant naill ai ofyn i DWP ailystyried, neu symud yn syth i apêl. Yn ymarferol, roedd llawer o bobl yn dewis apelio ar unwaith. Roedd hyn roi pwysau diangen ar HMCTS, a golygodd ei bod yn cymryd mwy o amser i'r penderfyniad cywir gael ei wneud. Bydd ailystyriaeth orfodol yn gwella'r broses anghydfodau drwy sicrhau bod cynifer o anghydfodau â phosibl yn cael eu datrys heb fod angen apelio.

C: Pam fod ailystyriaeth orfodol wedi cael ei gyflwyno?

Y prif resymau dros gyflwyno ailystyriaeth orfodol yw:

- datrys unrhyw anghydfodau cyn gynted â phosibl;
- lleihau'r galw diangen ar HMCTS drwy ddatrys mwy o anghydfodau'n fewnol;
- ystyried diwygio'r penderfyniad lle y bo'n briodol;
- rhoi esboniad llawn o'r penderfyniad; ac

- annog pobl i nodi a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol a all effeithio ar y penderfyniad, er mwyn i DWP allu sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau neu'r gynhaliadaeth plant y mae ganddynt yr hawl iddynt cyn gynted â phosibl.

C: Beth fydd yn digwydd os na fydd rhywun yn awyddus i gael ailystyriaeth orfodol yn ei achos?

Ers cyflwyno'r newidiadau i'r broses anghydfodau ac aeliadau, ni fydd yn bosibl symud yn syth i apêl mwyach. Os bydd rhywun yn awyddus i herio penderfyniad DWP, bydd ailystyriaeth orfodol yn angenrheidiol, gan y bydd angen i Swyddog Penderfyniadau gyflawni ailystyriaeth orfodol cyn y gellir rhoi hawliau apelio iddynt.

Os na fyddant yn gwneud cais am ailystyriaeth, bydd y penderfyniad a amlinellir yn eu hysbysiad o benderfyniad yn dod i rym.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn mynd yn syth i HMCTS ac yn gofyn am apêl?

Os bydd rhywun yn apelio'n syth i HMCTS heb ofyn yn gyntaf am ailystyriaeth orfodol, bydd HMCTS yn dychwelyd eu ffurflen apêl iddynt ac yn eu hysbysu nad yw'n ddilys heb Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol (sy'n cadarnhau bod DWP wedi edrych ar eu achos unwaith eto). Byddant yn eu gynghori i gysylltu â DWP a gofyn am ailystyriaeth orfodol.

C: A fydd ailystyriaeth orfodol yn gymwys i bob achos?

Na, mae rhai penderfyniadau nad oes ganddynt unrhyw hawliau i gael ailystyriaeth orfodol neu hapêl. Mae'r rhain yn cynnwys rhai penderfyniadau'n ymwneud â chynhaliadaeth plant. Bydd yr hysbysiad o benderfyniad yn egluro p'un a oes gan rywun yr hawl i ailystyriaeth orfodol ai peidio.

C: Sut y gall rhywun ofyn am ailystyriaeth orfodol?

Nodir rhai o'r ffyrdd o ofyn am ailystyriaeth orfodol yn yr hysbysiad o benderfyniad y bydd pobl yn ei dderbyn unwaith y caiff penderfyniad cychwynnol ei wneud yn eu hachos. Er enghraifft, gallant ffonio Canolfan Gyswllt DWP sy'n delio â'u hawliad, neu anfon cais yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad a nodir yn yr hysbysiad o benderfyniad.

Gall fod cyfleoedd eraill i ofyn am ailystyriaeth orfodol, yn dibynnu ar ba fudd-dal y maent yn ei hawlio. Er enghraifft, os bydd rhywun yn hawlio Taliad Annibyniaeth Personol ac y gwnaed penderfyniad andwyol, bydd Swyddog Penderfyniadau yn eu ffonio wythnos ar ôl y dyddiad ar yr hysbysiad o benderfyniad. Os bydd yr unigolyn yn anghytuno â'r penderfyniad yn yr hysbysiad, byddai hwn yn adeg ddelfrydol i ddweud wrth y Swyddog Penderfyniadau yr hoffant i DWP ei ailystyried.

C: Faint o amser sydd gan bobl i ofyn am ailystyriaeth orfodol?

Waeth sut y bydd rhywun yn dewis gofyn am ailystyriaeth orfodol, y terfyn ar gyfer ceisiadau ailystyriaeth yw mis calendr i ddyddiad cyhoeddi eu hysbysiad o

benderfyniad. Os ydynt wedi gofyn i DWP am ddatganiad ysgrifenedig ar y rhesymau dros eu penderfyniad yna gall terfyn amser estynedig fod yn gymwys.

Gall y Swyddog Penderfyniadau hefyd ymestyn y terfyn amser hwn os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu na allai rhywun wneud cais am ailystyriaeth o fewn mis calendr. Os bydd rhywun yn gwneud cais am ailystyriaeth orfodol fwy na mis ar ôl dyddiad cyhoeddi eu hysbysiad o benderfyniad, dylant roi rhesymau dros y cais hwyr, a bydd y Swyddog Penderfyniadau yn ystyried y rhain.

C: Pwy fydd yn cynnal yr ailystyriaeth orfodol? Ai'r un Swyddog Penderfyniadau a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol?

Lle y bo'n bosibl, cynhelir ailystyriaeth orfodol gan Swyddog Penderfyniadau gwahanol.

C: Faint o amser y bydd ailystyriaeth orfodol yn ei gymryd?

Nid oes unrhyw gynlluniau am amserlen statudol ar gyfer cwblhau'r broses ailystyriaeth orfodol, er bod yr Adran yn ystyried y ffordd orau o reoli a monitro'r broses i osgoi oedi diangen. Mae hyn yn golygu y bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i Swyddog Penderfyniadau gwblhau ailystyriaeth orfodol yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Cysylltir â'r unigolyn dan sylw unwaith y bydd y broses ailystyried wedi'i chwblhau.

C: Os yw cais rhywun am fudd-dal wedi'i wrthod, a fyddant yn cael taliadau tra bo'r ailystyriaeth orfodol yn yr arfaeth?

Os yw cais rhywun wedi'i wrthod yn llwyr, yna na, ni fyddant yn cael taliadau tra bo'r ailystyriaeth orfodol yn yr arfaeth. Mae hyn eisoes yn wir am yr holl fudd-daliadau a weinyddir gan DWP. Gall fod budd-daliadau eraill y bydd ganddynt hawl iddynt yn y cyfamser.

Os yw DWP wedi dyfarnu budd-dal neu gynhaliath plant i rywun ar gyfradd ostyngol, ac maent yn gofyn am ailystyriaeth orfodol am eu bod yn anghytuno â chyfradd y dyfarniad, byddant yn derbyn taliad ar y gyfradd ostyngol tra bo canlyniad yr ailystyriaeth orfodol yn yr arfaeth.

Os oes rhywun yn gofyn am ailystyriaeth oherwydd eu bod yn herio'r swm o gynhaliath plant sy'n daladwy, yna'r swm a gadarnhawyd yn eu hysbysiad o benderfyniad yw'r swm y bydd angen iddynt ei dalu tra bo canlyniad yr ailystyriaeth orfodol yn yr arfaeth.

Os caiff y penderfyniad yn yr achos ei wrthdroi ar ôl ailystyriaeth orfodol, caiff y taliad ei aildechrau a'i ôl-ddyddio i'r dyddiad y daeth y penderfyniad gwreiddiol i rym. Bydd DWP yn tynnu unrhyw fudd-daliadau disodli incwm y gallai'r hawlydd fod wedi'i hawlio yn ystod y cyfnod ailystyriaeth orfodol o'r cyfanswm sy'n ddyledus.

C: Sut y bydd pobl yn derbyn canlyniad yr ailystyriaeth orfodol?

Unwaith y bydd y Swyddog Penderfyniadau wedi cwblhau'r ailystyriaeth orfodol o'r achos, byddant yn anfon dau Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol atynt yn y post (copi i'r unigolyn, a chopi i'w anfon at HMCTS pe bai'r unigolyn yn awyddus i ddilyn apêl). Bydd y rhain yn cynnwys canlyniad yr ailystyriaeth, a byddant hefyd yn nodi manylion hawliau apelio.

C: Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dal i feddwl bod penderfyniad DWP yn anghywir ar ôl ailystyriaeth orfodol?

Os bydd unigolyn, ar ôl ailystyriaeth orfodol, yn dymuno herio penderfyniad DWP o hyd, gallant apelio yn erbyn y penderfyniad, waeth p'un a yw'r penderfyniad wedi newid neu wedi aros yr un peth. Mae'n rhaid gwneud unrhyw apêl yn ysgrifenedig i HMCTS. Bydd yr Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol yn cynnwys manylion sut i wneud hyn.

C: Beth os bydd rhywun yn gwneud cais yn hwyr am ailystyriaeth orfodol?

Dylai unrhyw un sy'n awyddus i herio penderfyniad DWP geisio mynd ar drywydd ailystyriaeth orfodol o fewn mis calendr i ddyddiad cyhoeddi eu hysbysiad o benderfyniad. Os ydynt wedi gofyn i DWP am ddatganiad ysgrifenedig ar y rhesymau dros y penderfyniad, yna gall terfyn amser estynedig fod yn gymwys.

Gall Swyddog Penderfyniadau hefyd ymestyn y terfyn amser hwn i hyd at 12 mis os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu na allai rhywun wneud cais am ailystyriaeth o fewn mis calendr. Felly os bydd rhywun yn gwneud cais am ailystyriaeth orfodol rhwng mis ac 13 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi eu hysbysiad o benderfyniad, a gallant roi rhesymau pam bod eu cais yn hwyr, yna gall y Swyddog Penderfyniadau ailystyried eu hachos o hyd.

Os na allant esbonio i DWP pam na wnaed eu cais mewn da bryd yna efallai na fydd y Swyddog Penderfyniadau yn gallu ailystyried eu hachos. Gall hyn effeithio ar eu hawl i apelio.

C: A all DWP wrthod cyflawni ailystyriaeth orfodol?

Os bydd cais am ailystyriaeth yn hwyr, a bydd y Swyddog Penderfyniadau yn penderfynu na ellir ei dderbyn, yna gall DWP wrthod ailystyried yr achos.

C: Os bydd rhywun yn gwneud cais hwyr am ailystyriaeth orfodol a bydd DWP yn gwrthod ailystyried, a all apelio yn erbyn y penderfyniad o hyd?

Os bydd rhywun yn gwneud cais yn hwyr am ailystyriaeth orfodol ac ni dderbynnir y cais gan y Swyddog Penderfyniadau, er enghraifft, am na roddwyd rhesymau dros yr oedi, yna ni fyddant yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae ailystyriaeth orfodol yn rhan orfodol o herio penderfyniad, ac ni fydd yn bosibl apelio heb i DWP ailystyried yr achos.

Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n gwneud cais hwyr yn gallu dweud pam na allent gyflwyno eu cais am ailystyriaeth mewn da bryd.

C: A yw Swyddogion Penderfyniadau yn meddu ar gymwysterau meddygol? A fyddant yn gallu cael gafael ar ganllawiau meddygol?

Nid yw Swyddogion Penderfyniadau yn meddu ar gymwysterau meddygol. Nid yw hyn yn ofyniad ar gyfer eu swydd, am nad ydynt yn cyflawni asesiadau meddygol, ond yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth yn cynnwys adroddiad aseswr annibynnol sy'n meddu ar gymwysterau meddygol.

Gall Swyddogion Penderfyniadau gael gafael ar y canllawiau meddygol priodol, y gallant eu defnyddio ar unrhyw adeg i egluro terminoleg feddygol.

Yr alwad ffôn gan y Swyddog Penderfyniadau

C: Os bydd Swyddog Penderfyniadau sy'n cyflawni'r ailystyriaeth orfodol yn debygol o wrthod neu leihau hawliad, pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd?

Os na all Swyddog Penderfyniadau adolygu achos yn llawn o blaid unigolyn, byddant yn ffonio'r unigolyn ac yn eu hysbysu bod y Swyddog Penderfyniadau yn debygol o wneud penderfyniad andwyol. Yn ystod yr alwad, bydd y Swyddog Penderfyniadau yn gofyn i'r unigolyn am unrhyw agweddau ar eu hachos sy'n aneglur, a byddant hefyd yn gofyn a oes ganddynt unrhyw dystiolaeth bellach a allai helpu'r achos (er enghraifft, llythyr gan arbenigwr na chafodd ei anfon yn flaenorol at DWP). Os bydd gan yr unigolyn dystiolaeth bellach, bydd y Swyddog Penderfyniadau yn dweud wrthynt ble i'w hanfon.

Yna aiff y Swyddog Penderfyniadau ati i gyflawni ailystyriaeth orfodol, gan ystyried unrhyw dystiolaeth newydd a ddarparwyd.

C: Lle y bo'n debygol y caiff penderfyniad andwyol ei wneud, a fydd y Swyddog Penderfyniadau yn ceisio cysylltu â'r unigolyn dan sylw i drafod hyn gyda hwy ac yn ceisio unrhyw dystiolaeth bellach?

Bydd, bydd y Swyddog Penderfyniadau yn ceisio ffonio'r unigolyn dan sylw i drafod y mater o leiaf ddwywaith. Ar gyfer rhai budd-daliadau, byddant yn ceisio ffonio deirgwaith neu fwy, yn dibynnu ar gyfyngiadau amser.

C: Beth fydd yn digwydd os na all y Swyddog Penderfyniadau gysylltu â'r unigolyn dros y ffôn?

Os na all y Swyddog Penderfyniadau gysylltu â'r unigolyn dros y ffôn ar ôl ceisio gwneud hynny ddwywaith neu dair, byddant yn bwrw ati gyda'r ailystyriaeth orfodol ar sail y dystiolaeth sydd eisoes ar gael iddynt.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhagor o wybodaeth yn deillio o'r alwad ffôn gan y Swyddog Penderfyniadau?

Os bydd rhagor o wybodaeth ar lafar yn deillio o'r alwad ffôn, bydd y Swyddog Penderfyniadau yn ystyried hyn wrth ailystyried yr achos.

Os bydd unigolyn, yn ystod yr alwad, yn dweud wrth y Swyddog Penderfyniadau bod ganddynt dystiolaeth ysgrifenedig bellach y gellir ei hanfon at yr Adran, yna bydd y Swyddog Penderfyniadau yn aros i dderbyn y dystiolaeth hon cyn ailystyried yr achos. Byddant yn gohirio'r ailystyriaeth orfodol am fis, er mwyn rhoi amser i'r unigolyn anfon y dystiolaeth.

Os na fydd y Swyddog Penderfyniadau wedi derbyn y dystiolaeth ar ddiwedd y mis, byddant yn bwrw ati gyda'r ailystyriaeth orfodol ar sail y dystiolaeth sydd eisoes ar gael iddynt.

Cyflwyno tystiolaeth bellach

C: A all DWP hysbysu rhywun pa dystiolaeth bellach y dylant ei hanfon?

Gall. Bydd y Swyddog Penderfyniadau yn rhoi gwybod pa dystiolaeth sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy i ddatblygu'r achos.

C: A oes unrhyw gymorth ar gael i dalu am gostau cael gafael ar dystiolaeth bellach?

Os bydd Swyddog Penderfynu yn teimlo bod darn o dystiolaeth yn angenrheidiol i ddatblygu achos, yna efallai y bydd DWP yn gallu talu unrhyw ffioedd cysylltiedig. Dim ond tystiolaeth y mae'r Swyddog Penderfyniadau yn cytuno ei bod yn angenrheidiol y gall DWP dalu amdani.

C: Faint o amser fydd gan bobl i gyflwyno tystiolaeth bellach?

Bydd gan bobl hyd at fis i gyflwyno tystiolaeth bellach, o'r diwrnod y gwnaethant hysbysu'r Swyddog Penderfyniadau y byddent yn anfon tystiolaeth bellach. Gall y Swyddog Penderfyniadau ymestyn y terfyn hwn o dan rai amgylchiadau.

C: I ble ddylai pobl anfon unrhyw dystiolaeth bellach?

Dylai unrhyw dystiolaeth bellach ar gyfer ailystyriaeth orfodol person gael ei hanfon cyn gynted â phosibl i'r swyddfa DWP sy'n delio a'u hachos. Fe welir cyfeiriad cywir y swyddfa ar eu hysbysiad o ddyfarniad.

C: A allwch ailystyried achos hyd yn oed os nad oes tystiolaeth bellach?

Nid oes rhaid i bobl ddarparu tystiolaeth bellach er mwyn gofyn i benderfyniad gael ei ailystyried. Fodd bynnag, os bydd ganddynt unrhyw dystiolaeth bellach i ategu eu cais, dylent ei hanfon at DWP cyn gynted â phosibl, gan y bydd hyn yn galluogi'r Swyddog Penderfyniadau i wneud y penderfyniad cywir yn yr achos yn gyflymach. Yn ddelfrydol dylid darparu pob darn o wybodaeth pan fydd rhywun yn cyflwyno ei gais am fudd-dal neu Gynhaliaeth Plant gyntaf.

Y Broses o Gyflwyno'n Uniongyrchol

C: Beth yw "cyflwyno'n uniongyrchol" a sut y bydd yn newid pethau?

Mae cyflwyno'n uniongyrchol yn golygu y bydd angen i unrhyw un sydd am apelio o hyd yn dilyn ailystyriaeth orfodol gyflwyno eu hapêl yn uniongyrchol i HMCTS, yn hytrach na thrwy DWP.

Cyn cyflwyno'n uniongyrchol, os oedd rhywun yn awyddus i apelio, roeddent yn cyflwyno apêl ysgrifenedig at un o Swyddogion Penderfyniadau DWP, oedd yn ystyried papurau'r apêl ac oedd gyda'r opsiwn o ddiwygio'r penderfyniad a/neu anfon ymateb a phapurau at HMCTS fel y bo'n briodol.

Yn dilyn cyflwyno gyflwyno'n uniongyrchol, bydd unrhyw un sy'n dal i herio penderfyniad DWP ar ôl ailystyriaeth orfodol yn cyflwyno eu hapêl yn uniongyrchol i HMCTS. Dyma'r broses sydd eisoes ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r awdurdodaethau pwysig y mae HMCTS yn delio â hwy.

C: Pam fod cyflwyno'n uniongyrchol wedi cael ei gyflwyno?

Y prif resymau dros gyflwyno proses o gyflwyno'n uniongyrchol yw:

- cysoni'r broses apelio ar gyfer apelïadau Nawdd Cymdeithasol a chynhaliaeth plant ag awdurdodaethau pwysig eraill y mae HMCTS yn delio â hwy;
- sicrhau nad yw DWP yn ymwneud â'r broses o weinyddu apelïadau mwyach, fel y gall ganolbwyntio ar ei rôl allweddol fel parti i apelïadau;
- cyflymu'r broses apelio a'i hegluro. Mae'r trefniant presennol, lle bydd hawlwyfwr yn cyflwyno eu hapêl i Swyddog Penderfyniadau DWP sy'n trosglwyddo'r apêl i HMCTS, yn achosi oedi o ran trefnu tribiwnlysoedd, a dryswch i bobl nad ydynt o bosibl yn sylweddoli pa sefydliad sy'n gyfrifol am eu hapêl ar unrhyw adeg.

C: A fydd newidiadau'n golygu bod gwaith gweinyddu apelïadau HMCTS yn fwy cymhleth?

Bydd y newidiadau yn bendant yn rhoi mwy o rôl i HMCTS mewn perthynas â gweinyddu apelïadau, gan mai nod cyflwyno'n uniongyrchol yw rhyddhau DWP rhag gweinyddu apelïadau, er mwyn galluogi'r Adran i ganolbwyntio ar ei phrif rôl fel parti i apelïadau.

Fodd bynnag, un o nodau cyffredinol y diwygiadau i'r broses apelio yw lleihau pwysau diangen ar HMCTS drwy ddatrys mwy o anghydfodau'n fewnol o fewn DWP, felly mewn gwirionedd, dylai'r newidiadau leihau'r baich gweinyddol ar HMCTS yn y tymor hwy.

Mae DWP a HMCTS hefyd o'r farn y bydd cyflwyno'n uniongyrchol yn golygu y bydd cyfrifoldeb am weinyddu apelïadau yn gliriach ac yn symlach, yn hytrach nag yn fwy cymhleth. Roedd y trefniant cyn y newidiadau, lle roedd hawlwy'r yn cyflwyno eu hapêl i Swyddog Penderfyniadau DWP oedd yn trosglwyddo'r apêl i HMCTS, yn achosi oedi o ran trefnu tribiwnlysoedd, a dryswch i bobl nad ydynt o bosibl yn sylweddoli pa sefydliad sy'n gyfrifol am eu hapêl ar unrhyw adeg. Dylai cyflwyno apelïadau'n uniongyrchol i HMCTS leihau'r problemau hyn.

C: A all apelydd dynnu apêl yn ôl unwaith y byddant wedi'i chyflwyno?

Gall. Gall apelydd dynnu apêl yn ôl ar unrhyw adeg. Ar ôl cyflwyno'r apêl, bydd yr apelydd yn derbyn llythyr gan HMCTS yn cadarnhau ei bod wedi'i chyflwyno, a bydd y llythyr hwn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer HMCTS. Gall yr apelydd ysgrifennu at HMCTS gan ddefnyddio'r manylion cyswllt, a byddant yn derbyn y cais i dynnu'r apêl yn ôl ac yn ei therfynu. Byddant hefyd yn hysbysu DWP o'r ffaith bod hyn wedi'i wneud.

Cyflwyno apêl

C: Sut y gall pobl gyflwyno apêl?

Gall pobl gyflwyno apêl drwy lenwi ffurflen apêl SSCS1 (neu ffurflen SSCS2 neu SSCS3 mewn achosion cynhaliaeth plant ac adennill hawliadau iawndal). Gellir lawrlwytho'r rhain o www.justice.gov.uk/tribunals neu GOV.UK, neu maent ar gael ar ffurf papur o rai canolfannau cynghori annibynnol.

Dylid anfon y ffurflen wedi'i chwblhau at HMCTS, SSCS Appeals Centre, PO Box 1203, Bradford BD1 9WP ar gyfer achosion yng Nghymru a Lloegr, ac at HMCTS SSCS Appeals Centre, PO Box 27080, Glasgow G2 9HQ ar gyfer achosion yn yr Alban.

Bydd ffurflen apêl SSCS yn cynnwys nodyn o'r cyfeiriadau hyn.

C: A all pobl gyflwyno mwy nag un apêl yn erbyn yr un penderfyniad?

Na. Dim ond os yw apêl wedi'i hategu gan Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol, y bydd DWP yn ei anfon at unigolyn yn y post yn dilyn ailystyriaeth, y bydd yn ddilys. Bydd hyn yn atal apelïadau lluosog. At hyn, bydd system gyfrifiadurol HMCTS yn nodi apelïadau lluosog a dderbynnir gan un unigolyn, a bydd staff yn cynnal archwiliadau i nodi apelïadau dyblyg.

Os bydd rhywun o'r farn bod penderfyniad DWP yn anghywir am fwy nag un rheswm, dylant nodi eu holl resymau ar eu ffurflen apêl. Bydd y swyddog penderfyniadau yn sicrhau bod holl seiliau'r apêl yn cael eu trafod yn eu hymateb.

C: Faint o amser sydd gan rywun i gyflwyno apêl ar ôl derbyn canlyniad yr ailystyriaeth orfodol?

Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apêl o fewn mis i gyhoeddi'r Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol. Gellir ymestyn y terfyn hwn o dan amgylchiadau penodol, os rhoddir rheswm pam bod yr apêl yn hwyr ac os bydd y tribiwnlys yn derbyn hyn.

C: A fydd pobl yn cael gwybodaeth am eu hawl i apelio?

Byddant. Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn cynnwys hawliau person i apelio, a gallant gyfeirio at yr Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol am fanylion y camau i'w cymryd os nad ydynt am apelio i HMCTS yn dilyn ailystyriaeth orfodol.

Ni ellir apelio yn erbyn nifer fach o benderfyniadau: er enghraifft, penderfyniad ar uwchraddio budd-daliadau. Os na ellir apelio yn erbyn achos, bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi hyn.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn mynd yn syth i HMCTS ac yn gofyn am apêl cyn bod eu achos wedi'i ailystyried?

Os bydd rhywun yn apelio'n syth i HMCTS heb ofyn gyntaf am ailystyriaeth orfodol, bydd HMCTS yn dychwelyd y ffurflen apêl gan hysbysu nad yw'n ddilys oni fydd y tribiwnlys yn fodlon bod ailystyriaeth orfodol wedi'i chwblhau. Byddant yn cynghori'r unigolyn i gysylltu â DWP a gofyn am ailystyriaeth orfodol.

C: A fydd DWP yn cysylltu â phobl gyda gwybodaeth am y broses apelio?

Na. Yn dilyn cyflwyno'r newidiadau i'r broses apelio, mae DWP wedi rhoi'r gorau i fod yn rhan o'r gwaith o weinyddu'r broses apelio a bydd yn canolbwyntio ar ei rôl fel parti i unrhyw apêl. Felly ni fydd DWP yn cysylltu â phobl am y broses apelio, er y bydd manylion hawliau i apelio a sut i fynd ati i gyflwyno apêl o fewn yr Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol.

C: O ble y gall pobl yn y DU gael y ffurflen gywir ar gyfer cyflwyno apêl?

Gall rhai canolfannau cynghori annibynnol roi ffurflen apêl SSCS i bobl. Gallant hefyd gael gafael ar y ffurflen gywir ar-lein yn www.justice.gov.uk/tribunals neu GOV.UK.

C: O ble y gall pobl sy'n byw dramor gael y ffurflen gywir ar gyfer cyflwyno apêl?

Dylai pobl sy'n byw dramor gysylltu â Swyddog Gwasanaeth Pensiynau Rhyngwladol yn y Ganolfan Pensiynau Rhyngwladol neu â'u Llysgenhadaeth, a ddylai fod yn gallu rhoi ffurflen apêl SSCS iddynt. Gallant hefyd gael gafael ar y ffurflen gywir ar-lein yn www.justice.gov.uk/tribunals, neu yn GOV.UK.

C: Ble y gall pobl gael help i ysgrifennu eu hapeliadau?

Gall canolfannau cynghori fel Canolfan Cyngor ar Bopeth roi help a chefnogaeth i ysgrifennu apêl. Gall undebau llafur roi cyngor am ddim hefyd.

C: Ble y gall pobl sy'n byw dramor gael help i ysgrifennu eu hapeliadau?

Dylai pobl sy'n byw dramor gysylltu â Swyddog Gwasanaeth Pensiynau Rhyngwladol yn y Ganolfan Pensiynau Rhyngwladol neu â'u Llysgenhadaeth. Efallai y byddant yn gallu eu cyfeirio at sefydliadau a all eu helpu i ysgrifennu apêl.

Gall pobl sy'n byw dramor hefyd fod yn awyddus i ystyried gofyn i rywun yn y DU weithredu ar eu rhan.

C: Sut y bydd pobl yn gwybod pa ffurflen apêl i'w defnyddio?

Os bydd rhywun yn apelio ar ôl i'r newidiadau gael eu cyflwyno i'w budd-dal, dylent apelio ar ffurflen apêl SSCS1 (neu ffurflen SSCS2 neu SSCS3 mewn achosion yn ymwneud â chynhaliadaeth plant ac adennill hawliadau iawndal). Gellir eu lawrlwytho o www.justice.gov.uk/tribunals neu GOV.UK, neu maent ar gael gan rai cyrff cynghori annibynnol. Gall Canolfan Gyswilt DWP sy'n delio â'i hawliad neu Ganolfan Gwaith leol yr unigolyn roi rhagor o wybodaeth am y llyfyrdd sy'n cadw ffurflenni apêl SSCS yn ei ardal. Os bydd rhywun yn apelio cyn i'r newidiadau gael eu cyflwyno ar gyfer ei fudd-dal, gall ddefnyddio ffurflen apêl GL24W o hyd.

Gall pobl ddweud a wnaed y penderfyniad yn eu hachos cyn neu ar ôl cyflwyno'r newidiadau drwy gyfeirio at y dyddiad ar yr hysbysiad o benderfyniad. Os yw'r dyddiad hwn ar neu cyn 27 Hydref 2013, dylent ddefnyddio ffurflen GL24 a chyflwyno eu hapêl gyda DWP. Os yw'r dyddiad ar neu ar ôl 28 Hydref 2013, dylent ddefnyddio ffurflen apêl SSCS a chyflwyno eu hapêl yn uniongyrchol gyda HMCTS.

Dylai unrhyw un sydd â chais yn ymwneud â Thaliad Annibyniaeth Personol neu Gredyd Cynhwysol hefyd ddefnyddio ffurflen apêl SSCS1, waeth beth fo'r dyddiad ar eu hysbysiad o benderfyniad.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn apelio ar y ffurflen anghywir?

Os bydd rhywun yn apelio ar y ffurflen anghywir, gallai eu hapêl fod yn ddilys o hyd cyhyd â'i bod wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg neu'n Saesneg, wedi'i llofnodi a'i hategu gan Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol (os yw'n briodol). Ni fydd yn rhaid iddynt lenwi ffurflen arall i apelio cyhyd â bod eu cais i apelio yn cydymffurfio â'r rheolau hyn.

Dylai pobl nad ydynt yn sicr pa ffurflen i apelio arni ffonio Canolfan Gyswilt DWP sy'n delio â'u cais a gofyn am gyngor.

C: Beth fydd yn digwydd os na all rhywun lenwi'r ffurflen heb gymorth?

Efallai y gall nifer o sefydliadau helpu pobl i lenwi eu ffurflen apêl. Gall canolfannau cynghori fel Canolfan Cyngor ar Bopeth roi help a chefnogaeth i ysgrifennu apêl. Gall undebau llafur roi cyngor am ddim hefyd.

Gallai ymgeiswyr hefyd fod eisiau ystyried penodi cynrychiolydd i ddelio â'r apêl ar eu rhan.

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn colli eu Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol?

Dylai unrhyw un sy'n colli eu Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol ond sy'n dal i fod yn awyddus i herio penderfyniad DWP gysylltu â Chanolfan Gyswilt DWP sy'n delio â'u cais, i ofyn am i un arall gael ei hanfon atynt cyn iddynt gyflwyno apêl.

C: A all apelydd roi rhagor o wybodaeth i HMCTS am eu hamgylchiadau ar y cam apelio, ac os felly, i ble ddylant ei hanfon?

Mae'n bosibl i apelydd roi rhagor o wybodaeth i HMCTS ar y cam apelio. Gallant ei hanfon i'r swyddfa HMCTS sy'n delio â'u hachos. Mae cyfeiriad y swyddfa hon i'w weld ar y llythyr y byddant yn ei dderbyn gan HMCTS yn cydnabod derbyn eu hapêl. Bydd HMCTS yn anfon copi o unrhyw dystiolaeth pellach i DWP i'w ystyried.

Fodd bynnag, gall cyflwyno dystiolaeth bellach ar y cam hwn ymestyn y cyfnod o amser y bydd yn cymryd i anghydfod y person gael ei ddatrys, gan y bydd angen i DWP ystyried yr achos ar sail y dystiolaeth newydd. Bydd darparu'r holl dystiolaeth wrth wneud cais cyntaf am asesiad/cyfrifiad o fudd-dal neu gynhaliaeth plant, ac yn bendant cyn cwblhau ailystyriaeth orfodol, yn galluogi DWP i wneud y penderfyniad cywir yn yr achos yn gyflymach.

C: Sut y bydd pobl yn gwybod ble i anfon eu ffurflenni apêl SSCS?

Os yw'r unigolyn sy'n apelio yn byw yng Nghymru neu Loegr, dylant anfon eu hapêl i HMCTS, SSCS Appeals Centre, PO Box 1203, Bradford BD1 9WP.

Os ydynt yn byw yn yr Alban, dylant anfon eu hapêl i HMCTS SSCS Appeals Centre, PO Box 27080, Glasgow G2 9HQ.

Bydd ffurflen apêl SSCS yn cynnwys nodyn o'r cyfeiriadau hyn.

Os bydd yr unigolyn sy'n apelio yn byw dramor, dylant hefyd anfon eu ffurflen apêl SSCS i un o'r cyfeiriadau hyn. Bydd pa gyfeiriad y byddant yn ei ddefnyddio yn dibynnu ar b'un a ydynt bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawriad tribiwnlys ai peidio.

Os byddant yn penderfynu mynd i'r gwrandawriad, yna dylant anfon ffurflen apêl SSCS i'r cyfeiriad ar gyfer eu pwynt mynediad i Brydain Fawr (er enghraifft, os yw unigolyn yn bwriadu mynd i'r gwrandawriad a byddant yn cyrraedd yr Alban yna dylant anfon eu ffurflen apêl SSCS i'r cyfeiriad yn Glasgow).

Os byddant yn penderfynu peidio â mynd i'r gwrandawriad, dylant anfon eu ffurflen apêl SSCS i'r cyfeiriad ar gyfer y man lle roeddent yn arfer byw yn flaenorol ym Mhrydain Fawr (er enghraifft, os na fydd unigolyn yn bwriadu mynd i'r gwrandawriad ac arferant fyw yn Lloegr cyn symud dramor yna dylant anfon eu ffurflen apêl SSCS i'r cyfeiriad yn Bradford).

C: Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn anfon eu ffurflen apêl SSCS at DWP yn hytrach nag at HMCTS?

Os bydd rhywun yn anfon ei ffurflen apêl SSCS at DWP mewn camgymeriad ar ôl ailystyriaeth orfodol, bydd DWP yn ei hanfon yn ôl iddynt, gyda chyfarwyddiadau ar sut i'w chyflwyno'n uniongyrchol gyda HMCTS.

Os bydd rhywun yn anfon eu ffurflen apêl at DWP cyn iddynt ofyn am ailystyriaeth orfodol, bydd DWP yn trin eu cais am apêl fel cais am ailystyriaeth orfodol. Bydd Swyddog Penderfyniadau yn ystyried yr achos eto ac yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol at yr unigolyn gyda chanlyniad eu ailystyriaeth. Os bydd yr unigolyn, ar y cam hwn, yn dal yn awyddus i anghytuno â'r penderfyniad, gallant gyflwyno apêl yn uniongyrchol gyda HMCTS.

C: Pwy all pobl cysylltu â hwy am ddiweddariadau am eu hapêl?

Unwaith mae apêl wedi'i derbyn gan HMCTS, byddant yn ysgrifennu at y person i gydnabod derbyn eu hapêl. Bydd y llythyr hwn yn cynnwys rhif ffôn cyswllt a cyfeiriad y swyddfa HMCTS sy'n delio â'u hachos a dyma pwy ddylai'r person gysylltu â hwy am ddiweddariadau am eu hapêl.

Yn dilyn cyflwyno'r broses cyflwyno'n uniongyrchol, HMCTS fydd yn gyfrifol am weinyddu apeliadau, ac felly dylai'r person gysylltu â HMCTS ac nid DWP am ddiweddariadau am eu hapêl.

Terfynau Amser ar gyfer Ymatebion i Apeliadau

C: Beth yw'r terfynau amser a sut y byddant yn newid pethau?

Amserlenni yw terfynau amser, a nodir yn y gyfraith, ar gyfer faint o amser sydd gan DWP i ddychwelyd ymateb i apêl at HMCTS.

Mae DWP wedi cytuno i gais y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i gyflwyno terfynau amser ar gyfer dychwelyd ymatebion i apêl at HMCTS. Mae DWP wedi ymrwymo i ddarparu ymateb i apêl o fewn 28 diwrnod calendr mewn achosion yn ymwneud â budd-daliadau, ac o fewn 42 diwrnod mewn achosion cynhaliaeth plant.

C: Pam bod terfynau amser yn cael eu cyflwyno?

Nod terfynau amser yw gwella gwasanaethau cwsmeriaid drwy roi amserlen i bobl y gallant ddisgwyl i DWP brosesu'r ymateb i apêl unigol yn unol â hi.

Yn ychwanegol, bydd y newid yn golygu bod DWP yn unol ag adrannau eraill, sy'n amodol ar derfynau amser wrth gyflwyno ymatebion i apeliadau at HMCTS, ac yn unol â'r partïon eraill i apeliadau (yn cynnwys apelyddion), a oedd hefyd yn amodol ar derfynau amser.

C: Faint o amser fydd gan DWP i ddychwelyd ymatebion i apeliadau at HMCTS?

Bydd gan DWP 42 diwrnod calendr i ddychwelyd ymateb i apêl at HMCTS mewn achosion cynhaliaeth plant, a 28 diwrnod calendr ym mhob achos arall.

C: O ba ddyddiad y cyfrifir y terfyn amser?

Cyfrifir y terfyn amser o'r dyddiad y bydd Swyddog Apeliadau DWP yn derbyn y cais am ymateb i apêl gan HMCTS, i'r dyddiad y bydd HMCTS yn derbyn yr apêl.

C: A fydd yn rhaid i DWP brosesu'r apêl o fewn y terfyn amser yn ogystal â'i hysgrifennu?

Bydd. Mae'r terfyn amser yn cynrychioli'r cyfanswm amser y dylai ei gymryd i DWP ysgrifennu a phrosesu apêl a'i dychwelyd at HMCTS. Mewn achosion eithriadol, bydd yn bosibl i DWP ofyn i HMCTS ymestyn y terfyn amser.

C: Beth fydd yn digwydd os na all DWP ddychwelyd ymateb i apêl o fewn y terfyn amser?

Mewn achosion eithriadol, bydd yn bosibl i DWP ofyn i HMCTS ymestyn y terfyn amser. Barnwr y tribiwnlys fydd yn penderfynu p'un a ddylid cytuno i'r estyniad ai peidio, ar sail achosion unigol.

C: A fydd pobl yn cael copi o'r ymateb i'r apêl yn eu hachos?

Byddant, anfonir copi o ymateb i'r apêl at y person (ac unrhyw gynrychiolwyr), yn ogystal ag i'r tribiwnlys. Os yw'r apêl yn bethnasol i achos cynhaliaeth plant yna bydd yr ymatebydd i'r achos hefyd yn cael copi.

C: A fydd yr ôl-groniad o apeliadau yn ei gwneud hi'n fwy anodd i DWP fodloni'r terfynau amser?

Mae DWP wedi dyrannu staff ychwanegol i ddelio ag apeliadau, ac mae o'r farn y dylai hyn alluogi'r Adran i gydymffurfio â'r terfynau amser.

Taliad tra bod apêl yn yr arfaeth

C: Os yw cais rhywun am fudd-dal wedi'i wrthod, a gânt taliadau tra bod apêl yn yr arfaeth?

Mae hyn yn dibynnu ar ba fudd-dal y maent yn gwneud cais amdano. Ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau, ni chaiff taliadau eu hailddechrau tra bod apêl yn yr arfaeth. Yr un eithriad yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, lle bo'r cais wedi'i derfynu yn dilyn canlyniad Asesiad Gallu i Weithio.

Os bydd DWP wedi dyfarnu budd-dal neu gynhaliaeth plant i apelydd ar gyfradd ostyngol, ac maent yn apelio yn erbyn cyfradd y dyfarniad, yna byddant yn derbyn taliad ar y gyfradd ostyngol tra bo canlyniad gwrandawriad yr apêl yn yr arfaeth.

C: Lle bo rhywun yn herio penderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r Asesiad Gallu i Weithio, sut y bydd y newidiadau'n effeithio ar y broses o dalu ei fudd-dal yn ystod y broses anghydfodau ac apelio?

Cyn y newidiadau, gallai hawlwyf Lwfans Cyflogaeth a Chymorth y terfynwyd eu cais ddewis rhwng gofyn am ailystyriaeth a symud yn syth i apêl. Ni thalwyd budd-dal yn ystod y cyfnod ailystyriaeth, ond fe'i talwyd tra bo'r apêl yn yr arfaeth. Felly drwy symud yn syth i apêl, roedd yn bosibl osgoi bwlch yn y taliadau.

Yr un yw'r sefyllfa nawr sef os bydd hawlwydd yn herio penderfyniad i derfynu taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ni chânt eu talu tra bod ailystyriaeth yn yr arfaeth ond fe'i telir tra bod unrhyw apêl yn yr arfaeth. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r newidiadau, mae'r broses ailystyried yn orfodol felly ni fydd yn bosibl apelio ar unwaith ac felly osgoi bwlch mewn taliad. Efallai y gall hawlwyf hawlio budd-daliadau eraill yn ystod y cyfnod ailystyriaeth orfodol, fel Lwfans Ceisio Gwaith.

C: Pam nad ydych yn ailddechrau taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ystod ailystyriaeth orfodol, lle bo rhywun yn amau penderfyniad a wnaed o ganlyniad i'r Asesiad Gallu i Weithio, a phryd y caiff y taliadau eu haildechrau?

Ni fydd unrhyw fudd-dal DWP yn ailddechrau talu budd-dal tra bo'r broses ailystyriaeth orfodol yn parhau, ac nid oes sail gyfreithiol i wneud taliadau tra bod ailystyriaeth yn yr arfaeth. Efallai y gall hawlwyf hawlio budd-daliadau eraill yn ystod y cyfnod hwn, fel Lwfans Ceisio Gwaith.

Os caiff y penderfyniad gwreiddiol i derfynu budd-dal ei wrthdroi ar ôl yr ailystyriaeth orfodol, caiff y taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth eu haildechrau a'u hôl-ddyddio i'r dyddiad y daeth y penderfyniad yn yr achos i rym. Os bydd rhywun yn dal i herio penderfyniad DWP ar ôl cynnal ailystyriaeth orfodol, ac yn cyflwyno apêl, yna caiff y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ei dalu unwaith eto ar y gyfradd asesu pan fyddant yn cyflwyno apêl ac fe'i telir tra bo gwrandawriad yr apêl yn yr arfaeth. Ni allwn edrych i ailddechrau taliadau hyd nes y byddwn wedi cael ein hysbysu gan HMCTS bod y person wedi cyflwyno apêl. Bydd hyn yn digwydd yn awtomatig oni bai bod y person wedi gwneud cais am fudd-dal arall fel Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y cyfnod ailystyriaeth orfodol. Os bydd hyn yn digwydd, ac mae'r person eisiau gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn lle hynny tra mae apêl yn yr arfaeth, yna mae'n rhaid iddynt hysbysu DWP o hyn.

Caiff taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth eu ôl-ddyddio i ddyddiad effeithiol yr penderfyniad yn yr achos. Telir unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod hwn. Bydd DWP yn tynnu unrhyw fudd-daliadau disodli incwm y gallai'r hawlwydd fod wedi'u hawlio yn ystod y cyfnod ailystyriaeth orfodol o'r cyfanswm sy'n ddyledus.

C: Pa gymorth ariannol sydd ar gael i apelyddion yn ystod y broses apelio?

Os caiff taliadau apelydd eu terfynu neu eu lleihau tra bod apêl yn yr arfaeth gall budd-daliadau eraill fod ar gael hefyd yn dibynnu ar ei amgylchiadau.

C: Os bydd rhywun yn hawlio budd-dal sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd, a bod eu cyflwr yn gwaethygu neu'n newid tra bo gwrandawriad eu hapêl yn yr arfaeth, a oes rhaid iddynt wneud cais newydd?

Mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Dim ond yr amgylchiadau ar yr adeg y gwnaeth y swyddfa y penderfyniad y gall y tribiwnlys apêl eu hystyried. Ni all ystyried unrhyw newidiadau i'r amgylchiadau hynny a ddigwyddodd ar ôl i DWP wneud y penderfyniad sy'n destun yr apêl.

Os bydd amgylchiadau rhywun yn newid a allai effeithio ar y budd-daliadau a gaiff eu hawlio ganddynt, dylant hysbysu DWP ar unwaith, heb aros am benderfyniad ar eu hapêl. Gall yr Adran ailystyried ei phenderfyniad gwreiddiol ar sail newid mewn amgylchiadau.

C: Os bydd apelydd yn ennill eu hapêl, a gaiff eu taliadau eu hôl-ddyddio?

Os caiff penderfyniad DWP ei wrthdroi mewn apêl, yna caiff taliadau budd-dal neu gynhaliath plant eu hôl-ddyddio i'r dyddiad y daeth penderfyniad y tribiwnlys i rym. Caiff unrhyw daliadau sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod hwn eu talu.

Yn y Tribiwnlys

C: Beth yw'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd?

Mae'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn gwneud rheolau sy'n llywodraethu arferion a gweithdrefnau'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol ac Uwch Dribiwnlys HMCTS. Corff Cyhoeddus Anadrannol ymgynghorol ydyw, a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac wedi'i rymuso gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Bydd cyflwyno terfynau amser i DWP i ddychwelyd ymatebion i apêl at HMCTS yn golygu y bydd yr Adran yn unol â gofynion y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd.

C: Pwy fydd yn y tribiwnlys?

Yn y tribiwnlys bydd hyd at dri aelod, a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor ac sy'n gweithredu'n annibynnol o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Bydd un o'r aelodau yn gyfreithiol gymwys (cyfreithiwr neu fargyfreithiwr). Gall aelodau eraill y tribiwnlys feddu ar gymwysterau meddygol neu ariannol neu brofiad o anabledd neu wybodaeth am anabledd.

Gall DWP anfon Swyddog Cyflwyno i gynorthwyo'r tribiwnlys a chyflwyno achos yr Adran.

Gall apelyddion fynd â rhywun gyda hwy i'w tribiwnlys os ydynt yn awyddus i wneud hynny, fel cynrychiolydd neu dyst yn yr achos.

Mae gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn agored i'r cyhoedd, ond fel arfer ychydig iawn o bobl sy'n bresennol. Mewn rhai amgylchiadau, gall y tribiwnlys wahardd y cyhoedd rhag bod yn bresennol.

C: A fydd gan aelodau'r tribiwnlys ar gyfer apeliadau'n ymwneud â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Personol wybodaeth arbenigol am anabledd?

Bydd, mae hyn yn wir am apeliadau Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Personol, lle bydd y tribiwnlys yn cynnwys aelod panel sy'n gymwys i drafod anabledd, yn ogystal ag aelod sy'n meddu ar gymwysterau meddygol a barnwr y tribiwnlys.

Ar gyfer apeliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, bydd y tribiwnlys yn cynnwys barnwr y tribiwnlys ac aelod panel sy'n meddu ar gymwysterau meddygol yn unig.

C: Pwy fydd yn cynrychioli DWP mewn tribiwnlys?

Bydd DWP weithiau yn anfon Swyddog Cyflwyno i wrandawriad tribiwnlys, er mwyn cynorthwyo'r tribiwnlys a chyflwyno achos yr Adran. Weithiau bydd DWP yn anfon crynodeb ysgrifenedig o'i hachos i'r gwrandawriad tribiwnlys, yn hytrach nag anfon cynrychiolydd yn bersonol.

C: A oes rhaid i'r apelydd fod yn bresennol yn y tribiwnlys?

Ddim o reidrwydd. Bydd HMCTS yn rhoi'r cyfle i'r apelydd benderfynu a hoffant fynd i wrandawriad yn bersonol, a fydd yn eu galluogi i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu faterion sy'n codi. Os na fydd yr apelydd yn awyddus i fynd i'r tribiwnlys, ac na fydd DWP na'r tribiwnlys ei hun wedi gofyn am wrandawriad, penderfynir ar yr apêl yn seiliedig ar y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig.

C: A all apelydd anfon rhywun arall i'w cynrychioli mewn gwrandawriad apêl?

Gall. Gallant anfon cynrychiolydd i wrandawriad yr apêl. Gallai hyn fod yn rhywun o sefydliad proffesiynol, ffrind neu berthynas, neu unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar eu rhan.

C: Ble y gall apelyddion gael help gyda chostau mynd i wrandawriad apêl?

Efallai y bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn talu am rai o'r costau mynychu, er enghraifft costau teithio.

Bydd yn rhaid i apelyddion sy'n byw dramor dalu eu costau eich hunain i gyrraedd a gadael y DU. Efallai y gellir talu am rai costau tra byddant yn y DU.

Ar ôl y Tribiwnlys

C: A fydd DWP yn ceisio adborth gan dribiwnlysoedd apêl?

Bydd. Bydd y tribiwnlys yn anfon Hysbysiad o Benderfyniad at DWP, at yr apelydd ac at unrhyw gynrychiolydd a all fod ganddynt, a fydd yn nodi canlyniad y tribiwnlys. Lle bydd penderfyniad DWP wedi cael ei wrthdroi mewn apêl, bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi'r prif reswm dros wneud hyn, wedi'i ddewis gan farnwr o gwmpen. Bydd hyn yn galluogi'r Adran i asesu meysydd penderfyniadau lle gallai fod angen gwella ymhellach.

Mewn achosion lle bo DWP wedi anfon Swyddog Cyflwyno i wrandawriad tribiwnlys, gall y Swyddog Cyflwyno hefyd roi adborth i DWP ynghylch sut yr aeth y tribiwnlys i'r afael â'r dystiolaeth, gan gyfrannu at wella ansawdd penderfyniadau DWP.

C: Os bydd apelydd yn anghytuno â chanlyniad gwrandawriad eu hapêl, a allant ei herio?

Mae hyn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Dim ond ar fater cyfreithiol y gall apelyddion apelio i'r Uwch Dribiwnlys: hynny yw, os nad ydynt yn credu bod y Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi cymhwyso'r gyfraith yn gywir wrth ddelio â'i apêl. Nid yw'n bosibl apelio i'r Uwch Dribiwnlys am y ffeithiau y mae'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi'u defnyddio, nac am eu canfyddiadau meddygol na'u casgliadau.

C: Beth ddylai rhywun ei wneud nesaf os bydd y tribiwnlys yn cadarnhau penderfyniad DWP?

Os bydd rhywun o'r farn nad yw'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi cymhwyso'r gyfraith yn gywir wrth ddelio â'u hapêl, gallant apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar bwyt cyfreithiol. Rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd cyn gwneud hyn. Bydd llythyr y penderfyniad gan HMCTS yn esbonio sut i wneud hyn.

Fodd bynnag, nid yw'n bosibl apelio i'r Uwch Dribiwnlys am y ffeithiau y mae'r Tribiwnlys Haen Sylfaenol wedi'u defnyddio, nac am eu canfyddiadau meddygol na'u casgliadau.

Os na fydd rhywun am apelio i'r Uwch Dribiwnlys, gallant ddewis derbyn penderfyniad DWP. Gall fod budd-daliadau eraill y mae ganddynt hawl iddynt.

Neu, os na chafodd eu cais am fudd-dal neu gynhafiaeth plant ei ganiatáu, gallant wneud cais eto, ond os nad yw eu hamgylchiadau wedi newid yna mae'n annhebygol y bydd eu cais yn llwyddiannus.

C: Am ba hyd y mae'n rhaid i rywun aros ar ôl terfynu eu cais i wneud cais eto?

Gall pobl wneud cais eto yn syth ar ôl i'w cais gael ei wrthod. Fodd bynnag, os nad yw eu hamgylchiadau wedi newid ers i'w cais gael ei wrthod, yna mae'n debygol y caiff eu cais newydd hefyd ei wrthod.